

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



2. Rheoli eich sefydliad

2.10 Yr iaith Gymraeg – cyd-destun cyfreithiol

Cefndir

Cafodd yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal ei sefydlu a'i chynnwys yn [Neddf yr Iaith Gymraeg 1993](#) (Deddf 1993).

Deddfwriaeth

Ar ôl pasio Deddf yr Iaith Gymraeg, ffurfiwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhoddwyd iddo'r cyfrifoldeb dros hybu a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. Diddymwyd Bwrdd yr Iaith ar 31 Mawrth 2012 o ganlyniad i gyflwyno [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#) (Mesur 2011), ac ers hynny y mae dyletswyddau'r Bwrdd wedi'u rhannu rhwng [Comisiynydd y Gymraeg](#) (y Comisiynydd) a Llywodraeth Cymru.

Sefydlodd Deddf 1993 fod yn rhaid i **gyrff cyhoeddus** ddatblygu cynllun iaith, gan egluro'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y byddant yn eu darparu, sut a phryd y bydd y gwasanaethau hynny ar gael, a sut y byddant yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn gwasanaethau cyhoeddus. Eglurir yr hyn a olygir wrth 'corff cyhoeddus' yn adran 6 o'r Ddeddf.

Mae'n ofynnol i gyrff y Goron lunio cynlluniau hefyd ond nid yw'n ofynnol drwy statud i gyrff y trydydd sector lunio cynllun iaith. Mae Mesur 2011, fodd bynnag, yn gosod dyletswydd ar rai mudiadau yn y trydydd sector i gydymffurfio â safonau, ac yn rhoi'r grym i'r Comisiynydd fynnu bod mudiad yn cydymffurfio â safon benodol (bydd 'safonau' yn cymryd lle cynlluniau iaith maes o law). Mae Atodlenni 5-8 o Fesur 2011 yn cynnwys rhestr o'r mathau o fudiadau'r trydydd sector y mae Mesur 2011 yn berthnasol iddynt, a dylech hefyd gael hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd os oes gofyn i chi gydymffurfio â safon(au).

Er nad oes gofyniad cyfreithiol i fudiadau'r trydydd sector gael cynllun iaith, mae'r sector yn ei gyfanrwydd wedi cydnabod bod darparu gwasanaeth o safon yn Gymraeg ac yn Saesneg yn arfer da ac yn fuddiol i lawer. Gyda hyn mewn golwg, mae llawer o fudiadau wedi penderfynu mabwysiadu cynllun iaith priodol o'u gwirfodd, i ddangos yn gyhoeddus eu hymrwymiad i egwyddor triniaeth gyfartal. Tra bydd safonau yn cymryd lle cynlluniau iaith yn y pen draw, argymhellir i fudiadau barhau i gynnal y cynllun iaith sydd ganddynt yn y cyfamser, gan y bydd hyn yn helpu i osod y sylfeini angenrheidiol i ddatblygu tuag at gydymffurfio â safonau pan ddigwydd y newidiadau terfynol.

Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012 – 2017

Mae Gweinidogion Cymru wedi llunio strategaeth pum mlynedd ar gyfer hyrwyddo a hybu'r iaith Gymraeg, o'r enw [Iaith fyw: iaith byw](#) (mae'r strategaeth hon yn disodli *Iaith Pawb* a gyhoeddwyd yn 2003). Mae'r strategaeth wedi'i drafftio yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac eglura mai gweledigaeth y Llywodraeth yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. I gyflawni hyn, mae'r strategaeth yn anelu at weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.

Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cyrff gwirfoddol wedi dod i sylweddoli pwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn cadarnhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru a amlinellir yn [Cynllun y Trydydd Sector](#), sy'n cydnabod bod gan bawb hawl i gymryd rhan ac i gael ei gynnwys ym mywyd eu cymuned drwy wirfoddoli. Er mwyn parchu cydraddoldeb a sicrhau cynhwysiant cymdeithasol yma yng Nghymru, mae sefydliadau'n gwneud mwy a mwy o ymdrech i weithredu'n ddwyieithog.

Er mai'r brif ddadl dros hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yw sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, drwy weithredu'n ddwyieithog gall eich sefydliad hefyd elwa drwy'r canlynol:

- Mabwysiadu arferion da – rhoi dewis gwirioneddol i gleient o ran yr iaith a ddefnyddir yw hanfod ymarfer da
- Gwella ei ddelwedd fel sefydliad Cymreig
- Adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu
- Apelio at sbectwm ehangach o wirfoddolwyr
- Gwella ei siawns o ddenu arian gan gyrff sy'n edrych yn ffafriol ar sefydliad sydd â pholisi o ddenu gwirfoddolwyr o drawstoriad o'r gymdeithas
- Gwella ansawdd ei wasanaethau i'r cyhoedd.

Mwy o wybodaeth

Comisiynydd y Gymraeg

Ffôn: 0845 6033 221

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

www.comisiynyddygyymraeg.cymru

Ymwadiad

Cyfarwyddyd yn unig yw'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR

Elusen Gofrestredig: 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 25/01/2017



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk